

2020 Rhif: 79

**DEDDF Y GWASANAETH
IECHYD GWLADOL (CYMRU)
2006**

Cyfarwyddydau Gwaed a
Thrawsblaniadau'r GIG (NHS
Blood and Transplant) (Cymru)
(Diwygio) 2020

Gwnaed

23 Rhagfyr 2020

Yn dod i rym yn unol â Chyfarwyddyd 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 23(1), 24(1), 203(9) a (10) a 204(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHS Blood and Transplant) (Cymru) (Diwygio) 2020.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym am 11 p.m. ar 31 Rhagfyr 2020.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygiadau i Gyfarwyddiadau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHS Blood and Transplant) (Cymru) 2005

2.—(1) Mae paragraff 5 (swyddogaethau mewn cysylltiad â dyrannu organau dynol i'w trawsblannu) o Gyfarwyddiadau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHS Blood and Transplant) (Cymru) 2005(1) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer is-baragraff (3)(c).

(3) Yn lle is-baragraff (3)(ch) rhodder—

“(ch) personau sydd â hawl yn rhinwedd cytundeb iechyd cilyddol dwyochrog (gan gynnwys cytundeb â sefydliad rhyngwladol) neu Gofensiwn Ewropeaidd ar Gymorth Cymdeithasol a Meddygol 1954 i driniaeth feddygol yn y Deyrnas Unedig a gaiff gynnwys dyrannu organau, a mynediad iddynt, at ddiben trawsblaniadau organau;”.

(4) Ar ôl is-baragraff (3)(d) mewnosoder—

“(dd) personau sydd â hawlogaeth i driniaeth feddygol yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd hawl sy'n codi o—

(i) Teitl III o Ran 2 o'r cytundeb ymadael â'r UE(2),

(ii) Teitl III o Ran 2 o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE, neu

(iii) y darpariaethau cyd-drefnu nawdd cymdeithasol yn y cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd;

(e) personau—

(i) a oedd yn preswyllo fel arfer yn un o wladwriaethau'r AEE neu'r Swistir yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu(3),


-
- (1) Diwygiwyd gan: Cyfarwyddiadau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHS Blood and Transplant) (Cymru) (Diwygio) 2005; Cyfarwyddiadau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHS Blood and Transplant) (Cymru) (Diwygio) 2010; Cyfarwyddiadau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHS Blood and Transplant) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2010; Cyfarwyddiadau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHS Blood and Transplant) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2010; Cyfarwyddiadau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHS Blood and Transplant) (Cymru) (Diwygio) 2011; Cyfarwyddiadau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHS Blood and Transplant) (Cymru) (Diwygio) 2015; Cyfarwyddiadau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHS Blood and Transplant) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2015.
- (2) *Gweler* Atodlen 1 i Ddeddf Dehongli 1978 (p. 30) am ystyr “EU withdrawal agreement” (“cytundeb ymadael â'r UE”).
- (3) *Gweler* Atodlen 1 i Ddeddf Dehongli 1978 am ystyr “IP completion day” (“diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu”).

- (ii) sy'n parhau i breswyllo fel arfer yn un o wladwriaethau'r AEE neu'r Swistir ar ac ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu,
- (iii) sy'n cael pensiwn y wladwriaeth a delir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, a
- (iv) sydd â thystysgrif gofal iechyd S1, neu ddogfen gyfatebol, a ddyroddwyd i'r person hwnnw, neu mewn cysylltiad â'r person hwnnw gan sefydliad cymwys o'r Deyrnas Unedig.”

(5) Ar ôl is-baragraff (3) mewnosoder—

“(3A) Yn is-baragraff (3)—

- (a) ystyr “sefydliad rhyngwladol” yw sefydliad y mae dau neu ragor o bwerau sofran, neu eu llywodraethau, yn aelodau ohono; a
- (b) mae i “cytundeb gwahanu EFTA yr AEE” a “cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd” yr un ystyr ag a roddir i “EEA EFTA separation agreement” a “Swiss citizens’ rights agreement” yn adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020(1).”



Athro Chris Jones
Dirprwy Brif Swyddog Meddygol Cymru,
Llywodraeth Cymru, o dan awdurdod y
Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

23 Rhagfyr 2020